Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 291 –28 Gorffennaf 2006
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2006.

Cyflwyniad Ymchwil
Cafwyd cyflwyniad gan Fiona McAllister o Beaufort Research ar ymchwil a wnaethpwyd ar y cyd rhwng Bwrdd-yr-Iaith, BBC Cymru ac S4C sef "Bywydau drwy'r Gymraeg".

Adroddiad y Prif Weithredwr

- Cyflwynodd y Prif Weithredwr y briff ar gyfer Brosiect ar Effaith Economaidd S4C i fynd allan i dendr.
- **BBC** – nodwyd bod y Bartneriaeth Strategol wedi ei gytuno heb unrhyw newidiadau. Y Prif Weithredwr a Menna Richards i arwyddo'r cytundeb maes o law. Nodwyd trefniadau ar gyfer cinio gyda Michael Grade ar ddydd Mawrth, 17 Hydref yng Nghaerdydd.
- **Ofcom** – cafwyd adroddiad yn dilyn ymweliad Philip Graf.

Adolygiad Strategaeth Rhaglenni
Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Comisiynu ei hadroddiad. Derbyniodd yr aelodau'r Adolygiad. Cytunwyd i barhau gyda'r Strategaeth Rhaglenni.

Materion Eraill

- Ymunodd Ron Jones, Cadeirydd Tinopolis, a rhoddwyd cyflwyniad i'r Awdurdod am ddatblygiadau diweddara'r grŵp.
- Rhoddodd y Cyfarwyddwr Comisiynu esboniad ar lafar o benderfyniad S4C i beidio â chomisiynu cyfres arall o *Clwb Garddio*.

Cyflwynwyd y papurau canlynol:-

- Adroddiad Ch1 a 2 o Gynllun Corfforaethol 2006
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Ariannol